Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Treharris**

**Clwb Bechgyn a Merched Treharris**
**Forest Road**
**Treharris**
**CF46 5HG**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Treharris

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Treharris |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn, ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae pwyslais cryf ar roi cyfle i'r plant arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn setlo'n dda ac yn fodlon eu byd. Maent yn cael cyfleoedd i ddod yn annibynnol ac i feithrin eu sgiliau drwy amrywiaeth o brofiadau a chwarae o ansawdd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r staff, ac mae hynny'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn ysgogol. Mae systemau da ar waith i gynllunio a monitro cynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau dan do ac awyr agored ar gael i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae trefniadau arwain a rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r rheolwr yn gwrando ar y staff ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn mwynhau eu gwaith ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cael cyfleoedd datblygiadol da er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion gofynnol ar waith. Mae'r rhieni'n canmol y gwasanaeth yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Mae'r pwyllgor yn rhagweithiol ac yn darparu cymorth ac arweiniad da. Mae partneriaethau llwyddiannus ar waith ag amrywiaeth o asiantaethau sy'n darparu cymorth ac yn monitro'r gwasanaeth. Ni chaiff y Gymraeg ei defnyddio'n gyson drwy gydol pob sesiwn.

## Llesiant

Gall y plant wneud eu dewisiadau eu hunain ac maent yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt. Cânt ryddid i ddewis eu gweithgareddau, ac maent yn deall y gallant ddisgwyl cael help neu gymorth os byddant yn gofyn amdano. Caiff y plant eu hannog i leisio eu teimladau a'u dewisiadau. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl ym mhob sesiwn. Mae'r plant yn teimlo bod lle ganddynt yn y lleoliad ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Mae ganddynt eu bachau cotiau eu hunain gyda'u henwau a'u gwaith celf a'u pen-blwydd wedi'u harddangos ar y waliau. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan fynegi boddhad â'r amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn hapus, yn ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn dechrau datblygu cydberthnasau agos yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dechrau rhannu, yn barod i helpu, gan roi blociau adeiladu i'w gilydd, ac maent yn mwynhau canu gyda'i gilydd yn ystod amser cylch. Maent yn awyddus i ddangos a siarad am y cerbydau roeddent yn eu hadeiladu ac yn eu trafod yn frwdfrydig. Mae'r plant yn cael ymarfer corff ac awyr iach rheolaidd ac yn gwerthfawrogi'r amser y maent yn ei dreulio yn yr awyr agored. Mae'r plant yn symud o gwmpas y lleoliad yn hyderus ac mae ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth o'r lleoliad. Maent yn mwynhau eu hamser yn chwarae gyda'i gilydd ar y teganau ag olwynion yn llawn cyffro. Maent yn mwynhau gweithgareddau chwarae rôl yn y gegin a gwisgo i fyny. Maent yn gwybod y gallant fynd at y staff i gael cysur a sicrwydd yn ôl yr angen.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn defnyddio'r toiledau, yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso cyn cael byrbryd a phan fydd y gweithgareddau yn newid. Maent yn dewis eu bwyd a'u diodydd eu hunain ac yn helpu i dacluso ar ôl bwyta. Mae'r plant yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad ar ôl cwblhau'r tasgau hyn.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Yn ystod pandemig COVID-19 mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn cadw pellter cymdeithasol cymaint â phosibl. Ni chaniateir mynediad i ymwelwyr nad ydynt yn hanfodol i'r safle ar hyn o bryd. Mae'r gymhareb staff:plant fel arfer yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith sy'n hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb i fod yn wyliadwrus ac maent yn glir ynghylch y prosesau i'w dilyn i ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu ac yn cael yr holl wybodaeth gyfredol berthnasol. Mae ymarferion tân misol yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Caiff pob damwain a digwyddiad ei gofnodi a'i werthuso gan y person â chyfrifoldeb, a chaiff pob cofnod ei lofnodi gan y rhieni. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol ac yn gallu delio ag unrhyw fân anafiadau'n hyderus. Mae'r staff yn darparu byrbryd iach bob dydd, sy'n cynnwys ffrwyth ffres, llaeth neu ddŵr ym mhob sesiwn. Mae'r staff yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant yn gyfredol a bod y plant yn cael eu monitro'n ofalus. Mae'r staff yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i fod yn gorfforol egnïol yn yr ardal awyr agored a chyda gweithgareddau dawnsio a symud dan do.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar â'r plant. Maent yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ystyried oedran a cham datblygu'r plant wrth reoli ymddygiad. Mae'r staff yn defnyddio llais tyner i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n drist, ac yn canmol y plant am eu hymdrechion. Mae dull gweithredu'r staff yn gyson ac maent yn gosod ffiniau realistig i'r plant sy'n deall y rheswm dros y rheolau. Mae'r staff yn rhoi cysur i blant sy'n teimlo'n drist ac maent yn fodelau rôl cadarnhaol iddynt. Mae cyswllt agos amlwg rhwng y plant a'r staff sy'n adnabod ei gilydd yn dda iawn.

Mae'r staff yn fedrus yn cefnogi gwaith dysgu a datblygu'r plant. Mae'r gweithwyr allweddol yn cael hyfforddiant i ddefnyddio asesiadau'r Cyfnod Sylfaen i olrhain cynnydd y plant a chynllunio gweithgareddau i gyflawni deilliannau penodol. Mae'r staff yn arsylwi ar y plant ac yn darparu gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad sgiliau. Mae'r staff yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gan y plant, ac yn gwneud atgyfeiriadau amserol i sicrhau bod y plant yn cael y cymorth priodol ar gyfer eu datblygiad. Nid yw'r Gymraeg bob amser yn cael ei defnyddio'n gyson ac mae'n dibynnu'n bennaf ar bresenoldeb dau siaradwr Cymraeg rhugl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn un ystafell mewn canolfan gymunedol ac mae ar wahân i grwpiau eraill. Mae ardal awyr agored hygyrch sydd ond yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau'r plant. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae cofrestrau yn cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad. Y cyngor lleol, sy'n gyfrifol am wiriadau cynnal a chadw arferol, sydd berchen ar yr adeilad. Mae'r staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a gofynion ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn agos.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'n groesawgar ac mae'n darparu ardaloedd golau a llachar i'r plant archwilio. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ac amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gall y plant gael gafael ar deganau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae digon o ddodrefn, teganau ac adnoddau ar gael ar gyfer maint y grŵp o blant. Mae'r adnoddau yn briodol ar gyfer cam datblygu'r plant ac yn hybu chwilfrydedd ac awydd i ddarganfod. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau oddi ar ganol yr ystafell ac maent yn lân ac yn ffres. Mae'r person â chyfrifoldeb yn bwriadu rhoi llen wrth fynedfa'r ardal hon er mwyn cynnal preifatrwydd y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal awyr agored yn rheolaidd. Mae'r ardal hon yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae gweithgar i'r plant ac mae'n ymestyn eu dysgu a datblygu. Mae cynllun yr ardal hon yn galluogi'r plant i archwilio'n rhydd ac mae'n cynnig heriau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Mae'r plant yn edrych ymlaen at reidio beiciau, chwarae â dŵr a chwarae rôl yn y gegin awyr agored. Mae'r holl adnoddau mewn cyflwr da, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn fedrus ac yn brofiadol ac maent yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Cafodd ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad ac mae'n cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol. Mae'r pwyllgor a'r unigolyn cyfrifol yn rhoi cymorth i'r person â chyfrifoldeb a'i thîm yn rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i hyrwyddo arferion diogel. Maent yn darparu polisïau â ffocws ac yn gosod nodau clir i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn cefnogi'r staff i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r unigolion sy'n rhan o'r tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Caiff gwiriadau priodol eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser.

Mae systemau effeithiol ar waith i wella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i gael adborth gan y rhieni a'r plant am y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr allweddol yn nodi barn y plant drwy chwarae gemau i ddangos eu dewisiadau a thrwy arsylwadau. Caiff dogfen flynyddol ar ansawdd y gofal ei llunio sy'n gofyn i'r rhieni a'r staff am eu barn ac am syniadau o ran unrhyw newidiadau a gwelliannau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu sesiynau goruchwylio unigol i'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth hefyd yn bwriadu trefnu hyfforddiant goruchwylio cyn gynted â phosibl. Caiff yr holl staff eu hannog i godi unrhyw bryderon a rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd staff sydd hefyd yn hyrwyddo rhannu arferion da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, yr iaith a ddefnyddiwyd fwyaf oedd Saesneg gydag ychydig o Gymraeg achlysurol am nad oedd neb o'r staff ar ddyletswydd yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda. Mae'r rhieni yn cael gwybodaeth drwy e-bost yn bennaf, er bod croeso i'r holl rieni drefnu cyfarfod â'r person â chyfrifoldeb neu weithiwr allweddol eu plentyn. Mae'r plant hefyd yn cael cylchlythyrau rheolaidd i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth gyfredol. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y gwasanaeth ac yn ei werthfawrogi'n fawr. Maent yn falch o'r cydberthnasau agos a chefnogol y mae eu plant yn eu meithrin â'r staff. Mae'r lleoliad yn cynnal cysylltiadau agos â Dechrau'n Deg ac asiantaethau eraill sy'n rhoi cymorth ac arweiniad.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cynnal cysondeb y Gymraeg ar bob adeg yn unol â'r datganiad o ddiben

A2. Dylai'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb gwblhau hyfforddiant goruchwylio

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/09/2021